

SICRHAU ANSAWDD ADDYSGU A DYSGU: ARCHWILIO ANSAWDD MEWNOL

CANLLAWIAU I ADRANNAU ACADEMAIDD

1. **PWRPAS**

- 1.1 Pwrpas ymweliad gydag Ysgol/Adran yw archwilio i weld bod yr holl brosesau a mecanweithiau perthnasol i ansawdd a safonau ar gael, eu bod yn rhedeg yn effeithiol ac yn effeithlon, a'u bod yn cyfoethogi addysgu a dysgu yn ôl yr argymhellion. Bydd unrhyw ddarpariaeth ar y cyd y mae Ysgol/Adran yn ymwneud ag ef yn cael ei gynnwys fel rhan o'r archwiliad ansawdd. Mae archwiliadau ansawdd mewnol yn rhan o broses y Brifysgol ar gyfer monitor a gwella ansawdd a safonau rhaglenni academaidd. Fel rheol, bydd aelod o Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd y Brifysgol yn arsylwi cyfarfod Bwrdd Arholi'r Ysgol yn y flwyddyn cyn yr archwiliad a chaiff cyrsiau'r ysgol eu hail ddilysu yn ystod y flwyddyn wedi'r archwiliad.

Bydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar weithgareddau'r Ysgol, ond caiff cysylltiadau gyda phwyllgorau perthnasol y Coleg a'u gweithgareddau eu hystyried hefyd.

- 1.2 Dylid annog cynrychiolwyr myfyrwyr o'r Ysgol i gymryd rhan lawn ym mharatodau'r Ysgol ar gyfer yr archwiliad. Dylai cynrychiolwyr myfyrwyr hefyd gyflwyno eu dogfen hunan-ddilysu eu hunain. Bydd Undeb y Myfyrwyr yn helpu gyda'r ymrwymiad hwn.

2. **PROSES**

- 2.1 Bydd ymweliad archwilio fel rheol yn para diwrnod llawn, a dyma fydd yn digwydd:

- [a] Archwilio dogfen hunanwerthuso, cofnodion y pwyllgorau perthnasol a phob dogfen arall sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu mewn Ysgol.
- [b] Cyfarfod(ydd) gyda'r Pennaeth Adran a'r staff sydd â chyfrifoldeb am wahanol agweddau o addysgu a dysgu (e.e. arholiadau, gofal bugeiliol, derbyniadau).
- [c] Cyfarfod(ydd) gyda chynrychiolwyr myfyrwyr.
- [ch] Cyfarfod(ydd) gydag aelodau eraill o staff sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd a/neu addysgu a dysgu (e.e. aelodau newydd o'r staff / gweinyddwyr).
- [d] Cyfarfodydd gyda staff perthnasol o'r Coleg, e.e. Cyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu'r Coleg, Cyfarwyddwr Ysgol Ôl-radd y Coleg.

- 2.2 Fel rheol bydd y tîm archwilio yn cynnwys y Pennaeth Gwella Ansawdd (neu rywun a enwebir o'r Gronfa Archwilio), aelod o'r Gronfa Archwilio neu'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd, Llywydd Undeb y Myfyrwyr (neu rywun a enwebir ganddo/ganddi), Asesydd Allanol, a'r Rheolwr Sicrhau Ansawdd.

2.2.1 Asesydd Allanol: Gwahoddir Adranau i enwebu tri chydweithiwr proffesiynol o'r Deyrnas Gyfunol a allai weithredu fel Asesydd Allanol - telir ffi a threuliau am y gwaith. Ni ddylai asesydd allanol fod yn arholwr allanol cyfredol o'r tu mewn i'r Ysgol a dylai, yn ddelfrydol, fod â pheth gwybodaeth o broses a threfniadau sicrhau ansawdd. Y panel archwilio fydd yn dewis asesydd allanol, trwy ymgynghori â'r Adran.

3. **CANOLI**

- 3.1 Bydd canolbwynt ymweliad o'r fath yn ymwneud â'r holl gyrsiau a ddysgir (o CertHE i raddau Meistr hyfforddedig). Pan fydd tîm Archwilio yn ymweld ag Ysgol, dyma'r eitemau fydd yn rhan o'r adolygiad:

3.2 **Cyrsiau a Modiwlau Israddedig ac Ôl-raddedig:**

- [a] Safonau addysgu a dysgu mewn modiwlau.
- [b] Cynnydd a Chyrhaeddiad Myfyrwyr
- [c] Cefnogaeth a Chanllawiau i Fyfyrwyr yn yr Ysgol

- [ch] Cynrychiolaeth myfyrwyr yn yr Ysgol
- [d] Adnoddau Addysgu a Dysgu
- [dd] Cynnydd rhwng gwahanol lefelau o gyrsiau israddedigion (Lefel 4/5/6 a 7), a'r berthynas rhwng modiwlau israddedig ac ôl-raddedig.
- [e] Datblygiadau newydd mewn addysgu a dysgu, e.e. Rhith Amgylchedd Dysgu (VLE)
- [f] Llawlyfrau Myfyrwyr, taflenni modiwlau, ffurflenni / rhestrau gwirio asesu, llawlyfr diogelwch lle bo hynny'n gymwys.
- [ff] Unrhyw freinio, neu Raglenni Dysgu o Bell
- [g] Dysgu Cyfrwng Cymraeg (os yw'n berthnasol)
- [ng] Lleoliadau (os yw'n berthnasol)
- [h] Cefnogaeth a hyfforddiant i fyfyrwyr ymchwil a'r modd y cânt eu goruchwyllo a'u monitro.

3.3. Systemau Ymateb

- [a] Adroddiadau Arholwyr Allanol
- [b] Ymateb gan Gyrrff Proffesiynol/Statudol (os yw'n berthnasol)
- [c] Gwerthuso Modiwlau a'r Cwrs gan Fyfyrwyr
- [ch] Ffurflenni QA2 neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny
- [d] Defnyddio a gweithredu Cynlluniau Adolygu a Datblygu Blynyddol (QA1)
- [dd] Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr, PTES & PRES

3.4 Cydymffurfio

Bydd y panel archwilio hefyd yn gofalu bod Ysgolion yn cydymffurfio â Rheoliadau a Chodau Ymarfer y Brifysgol fel y'u cynhwyswyd yn y Llawlyfr Sicrhau Ansawdd: www.bangor.ac.uk/regulations, ac yn gweithredu Strategaeth Addysgu a Dysgu a Strategaeth Rhyngwladoli'r Brifysgol.

3.5 Datblygu a Hyfforddi Staff

Bydd y panel archwilio yn trafod y canlynol gydag Ysgolion:

- [a] Cynefino a hyfforddiant gan y Brifysgol a'r Ysgol, a datblygu staff
- [b] Proses Arsylwi Cydweithwyr

4. DOGFENNAU FYDD EU HANGEN

4.1 CYFLENWIR GAN YR YSGOL

4.1.1 Hunanwerthusiad o ansawdd a safonau addysgu a dysgu

Yn yr adran hon mae angen i Ysgolion eu gwerthuso eu hunain yn erbyn set o ddatganiadau. Mae'r rhain yn ymdrin â'r meysydd canlynol: rhaglenni academiaidd, addysgu a dysgu, asesu ac adborth, cyfranogiad a phrofiad myfyrwyr, myfyrwyr ymchwil, datblygiad staff academiaidd, darpariaeth gydweithredol ac arholwyr allanol. Mae pro forma ynghlwm ac mae ar gael yn electronig ar y wefan Sicrhau Ansawdd: www.bangor.ac.uk/quality/audits.php.cy

Awgrymir bod tîm o staff, efallai Pwyllgor Addysgu a Dysgu'r Ysgol neu grŵp llai, yn cyfarfod i gytuno ar y sgoriau y mae'r Ysgol yn ei rhoi iddi ei hun yn erbyn pob datganiad. Dylai'r sgoriau fod o 1 i 4 fel a ganlyn:

- 4 = yr Ysgol yn cyflawni'r datganiad yn llawn
- 3 = yr Ysgol yn cyflawni'r datganiad i raddau helaeth
- 2 = yr Ysgol yn cyflawni'r datganiad yn rhannol
- 1 = nid yw'r Ysgol yn cyflawni'r datganiad

Dylid defnyddio'r adran sylwadau i ddangos:

- a) Tystiolaeth ategol. Gall hyn gynnwys cyfeiriadau at ddogfennau cyfan neu rannau o ddogfennau penodol, cofnodion pwyllgorau neu wybodaeth arall fel bo'n berthnasol. Mae'n rhaid sicrhau bod y rhain ar gael i'r panel archwilio.
- b) Pwyntiau gweithredu ar gyfer gwella ansawdd. Gellir defnyddio'r adran hon hefyd i nodi'r camau y mae'r Ysgol wedi nodi bod arni angen eu cymryd i gryfhau ansawdd ac/neu wella perfformiad.

Yn ogystal, gofynnir i'r Ysgol ysgrifennu sylwadau (dim mwy na 2 ochr A4) yn trafod y prif gryfderau a sialensiau y mae wedi eu nodi.

Defnyddir y sgoriau a'r sylwadau fel sail trafodaeth yn ystod yr archwiliad.

4.1.2 Yn ogystal, dylid darparu'r dogfennau canlynol hefyd:

- (a) Manylion am gyfansoddiad a chyfrifoldebau pwyllgorau'r Ysgol, a phwyllgorau'r Coleg, os yn berthnasol, sy'n ymwneud ag addysgu ac ymchwil.
- (b) Siart neu adroddiad yn nodi llinellau adrodd y grwpiau hyn yn yr Ysgol a'r Coleg.
- (c) Cofnodion Pwyllgor Addysgu neu Ansawdd yr Ysgol a'r Bwrdd Astudiaethau a'r Pwyllgor Staff-Myfyrwyr am y 3 blynedd aeth heibio, & Cynllun Awdurdod Dirprwyedig
- (ch) Canlyniadau gwerthuso modiwlau gan fyfyrwyr yn y flwyddyn academaidd flaenorol a chyfredol (os yw hynny'n berthnasol).
- (d) Adolygiadau hunanwerthuso/modiwlaid tiwtoriaid (ffurflenni QA2) yn y flwyddyn academaidd flaenorol a chyfredol (os yw hynny'n berthnasol).
- (dd) Yr adroddiad diweddaraf gan gorff proffesiynol neu sefydliad allanol (lle bo'n berthnasol) ar raglenni a gynigir gan yr Ysgol, ac ymateb yr Ysgol i unrhyw argymhellion neu amodau yn deillio o'r adroddiad.
- (e) Copi o raglen yr Ysgol ar gyfer yr Wythnos Groeso.
- (f) Cofnodion unrhyw bwyllgorau penodol sy'n ymwneud â chysiau breiniol neu ddysgu gwasgaredig.
- (ff) Strategaeth Addysgu a Dysgu'r Ysgol
- (g) Llawlyfrau myfyrwyr ar-lein am y flwyddyn academaidd gyfredol.

Dylech ddsbarthu'r dogfennau i'r tîm archwilio i'r Rheolwr Sicrhau Ansawdd dair wythnos cyn yr ymweliad archwilio. Dylech ofalu bod unrhyw ddogfennau cefnogi eraill ar gael ar y diwrnod.

4.2 CYFLENWIR GAN YR UNED GWELLA

- [a] Adroddiadau Arholwyr Allanol am y tair blynedd academaidd a aeth heibio.
- [b] Cynlluniau Adolygu a Datblygu Blyneddol (Ffurflenni QA1) ar gyfer yr holl raglenni a gynhwyswyd yn yr adolygiad am y tair blynedd academaidd a aeth heibio.
- [c] Yr Adroddiad Archwilio Ansawdd Mewnol blaenorol a'r Adroddiad Cynnydd.
- [ch] Data ystadegol

5. DEILLIANNAU'R YMWELIAD

- 5.1 Bydd yr Archwiliad Ansawdd yn esgor ar adroddiad fydd yn amlygu'r cryfderau mewn adran academaidd. Bydd hefyd yn rhestru unrhyw bwyntiau gweithredu i'w hystyried gan yr adran mewn perthynas â safonau academaidd, ansawdd y cyfleoedd dysgu a chynnal ansawdd a safonau.
- 5.2 Yn yr adroddiad hefyd bydd materion i'r Brifysgol eu hystyried.
- 5.3 Bydd gan yr Ysgol a'r Brifysgol flwyddyn i ymateb i'r pwyntiau gweithredu. Bydd gofyn i Ysgolion roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Brifysgol am weithredu'r pwyntiau. Bydd y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd yn ystyried yr adroddiad hwn. Os oes mater sy'n peri pryder penodol, efallai y bydd yn rhaid i'r Ysgol ymateb mewn cyfnod byrrach.

5.4 Os, wedi'r 12 mis, nad yw'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd yn fodlon gyda chynnydd neu weithredu'r pwyntiau, gall ofyn am y canlynol:

A] Ymweliad â'r Ysgol Academaidd neu Adran Ganolog i drafod y pwyntiau gweithredu yn fanylach gan Gadeirydd ac Ysgrifennydd y Panel Archwilio.

B] Cais am gynnal archwiliad mewnol dilynol yn yr Ysgol rhwng 12 a 36 mis.

<https://bangoroffice365.sharepoint.com/sites/CORPSERVICES-QualityAssuranceUnit/Shared Documents/Internal Quality Audits/2022-23/Guidelines for Departments 2022-23 cym.docx>